# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Dyddiad ac Amser

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 10FED MAWRTH, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Hefin Underwood
Elin Hywel
John Brynmor Hughes

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Stephen Tudor | Clwb Hwylio Pwllheli |
| Michael Sol Owen | Plas Heli |
| Wil Partington | Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Siambr Fasnach Pwllheli |
| Alwyn Roberts | Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |
| Cyng. Mike Parry | Cyngor Tref Pwllheli |
| Ifor Hughes | Cymdeithas Perchnogion Cyhod Pwllheli a'r Cylch |
| Barry Simmons | Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Morfa Pwllheli |

### Sylwedyddion:

Desmond George
David Williams
Gwilym Jones

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 07 Hydref 2025 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 7 - 11

I gyflwyno adroddiad Rheolwr Hafan a Harbwr Pwllheli.

## 6. PLAS HELI

I dderbyn diweddariad llafar gan y cynrychiolydd perthnasol ar gaterion sy'n ymwneud â Phlas Heli.

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 03 Tachwedd 2026 (yn ddarostyngedig i'w gadarnau gan y Cyngor Llawn).

Aelodau i nodi: bydd cyfarfod anffurfiol yn cael ei gynnal ar 18 Mawrth 2026 i drafod materion yn ymwneud â charthu'r Harbwr.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI, 07 HYDREF 2025

**PRESENOLDEB:**

**Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr Hefin Underwood a John Brynmor Hughes

**Aelodau Cyfetholedig:** Barry Simmons a Gillian Parry-Jones (Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli), Michael Sol Owen (Plas Heli), Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli), Alwyn Roberts (Sefydliad y Bad Achub, Pwllheli) a Wil Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli).

**Swyddogion :** Sarah Hattle (Rheolwr Hafan a Harbwr Pwllheli), Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Economi a Chymuned) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill yn Bresennol yn Arsylwi** : Desmond George (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd John Brynmor Hughes yn gadeirydd ar gyfer 2025/26.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Elin Hywel yn Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Gwilym Jones (Sylwedydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog) a'r Cynghorydd Elin Hywel.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Eglurwyd bod swyddogion yn ymwybodol o gwynion am y sbwriel sydd i'w weld o gwmpas ardal yr harbwr. Nodwyd bod sicrhau bod sbwriel yn cael ei gasglu yn rhan o gyfrifoldebau Rheolwr yr Hafan a'r Harbwr ond cydnabuwyd ei fod yn heriol i sicrhau bod popeth wedi cael ei gasglu ar bob achlysur. Sicrhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i godi sbwriel yn wythnosol, gan nodi bod hyn yn digwydd yn fwy rheolaidd os oes materion yn codi. Manylwyd ar enghraifft benodol ble mae beic wedi ei ganfod yng nghornel yr harbwr, gan gadarnhau bod swyddogion wedi ymdrechu i'w gasglu ond nid oes posib ei gyrraedd yn ddiogel ar hyn o bryd. Yn yr un modd, tynnwyd sylw at haenen o ddeunydd metel sydd wedi cyrraedd yr harbwr o gyfeiriad Abererch ac wedi rhwymo mewn mwd. Cadarnhawyd bydd y materion hyn yn cael ei ddatrys cyn gynted a bod modd a bod swyddogion yn monitro'r sefyllfaoedd yn barhaus. Gofynnwyd am gymorth defnyddwyr a'r cyhoedd i amlygu unrhyw fater sydd angen ymateb i sylw'r swyddogion mor fuan â phosib.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2025 fel rhai cywir.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Derbyniwyd diweddariad ar faterion rheolaethol yr harbwr gan Reolwr Hafan a Harbwr Pwllheli.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r adroddiad gan fanylu ar faterion data perfformiad a boddhad cwsmer. Manylwyd bod holiadur boddhad cwsmer yn cael eu rhannu gyda deiliaid angorfeydd yn fuan iawn, gan gadarnhau bydd canlyniadau'r holiadur yn cael ei rannu gyda'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.

Yn ystod y drafodaeth, derbyniwyd nifer o sylwadau am faterion carthu yn yr Harbwr. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr bod swyddogion yn y broses o baratoi dau gais trwydded forol i ddelio â materion craffu, mewn cydweithrediad ag Ymgynghoriaeth Gwynedd. Ymhelaethwyd byddai'r trwyddedau hyn yn galluogi swyddogion i bwmpio deunydd sydd wedi ei garthu allan i'r môr yn ogystal ag adennill tir. Esboniwyd bod gwahanol ardaloedd wedi cael eu hadnabod ar gyfer y gwaith hwn a bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer y cais am drwydded. Nodwyd nad oes sicrwydd bydd yr holl ardaloedd yn derbyn sylw nes bydd y cais adborth yn cael ei dderbyn am y ceisiadau trwydded. Cydnabuwyd nad oes datrysiad cyflym i faterion carthu ar hyn o bryd oherwydd bod y gwaith o baratoi i ymgeisio am y trwyddedau hyn yn mynd rhagddo hyd at Ebrill 2026. Manylwyd bod y broses o ymgeisio am drwyddedau morol yn un sydd yn cymryd oddeutu 12 mis, oherwydd yr angen i gynnal amrywiol archwiliadau, gan bwysleisio bod swyddogion yr harbwr yn cynnal cyfarfodydd cyson gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd er mwyn sicrhau nad oes llithriad i'r amserlen hon. Diweddarwyd y disgwylir derbyn adborth yn dilyn cyflwyno ceisiadau trwydded forol gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn eithaf cyflym gan bod swyddogion yn cydweithio'n agos â nhw drwy gydol y broses o ddatblygu'r ceisiadau, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei gynnwys a symleiddio'r broses. Mewn ymateb i ymholiad, sicrhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Economi a Chymuned nad oedd y broses hon o ymgeisio am drwyddedau morol er mwyn canfod datrysiad hirdymor yn mynd i gael effaith niweidiol ar y gwaith carthu rheolaidd sydd eisoes ar waith.

Ymhelaethwyd bod mynedfa'r harbwr wedi cael ei garthu yn gynharach eleni a bod trefniadau yn eu lle er mwyn ei garthu eto yn y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2026. Eglurwyd bod swyddogion yn chwilio am ardaloedd ble mae llaid yn casglu yn rheolaidd, ac yn ymwybodol bod hyn i'w weld yn digwydd ger pontŵn 11 ar hyn o bryd. Diolchwyd i ddefnyddwyr yr harbwr am hysbysu swyddogion o unrhyw ardal ble mae llaid yn ymgasglu. Nodwyd hefyd bod arolwg manwl wedi cael ei gyflawni ym mis Mai er mwyn derbyn data manwl ar gyflwr y sianel, gan gadarnhau nad oedd unrhyw broblemau i'w weld yn deillio o ganlyniadau'r arolwg hwnnw.

Mewn ymateb i ymholiad a oedd yn ystyried a oedd cyfran o elw'r Harbwr yn cael ei gadw ar ôl er mwyn sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gyfer carthu'n effeithiol, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Economi a Chymuned bod Cynllun Rheoli Asedau Cyngor Gwynedd wedi sicrhau bod £6miliwn wedi cael ei glustnodi ar gyfer yr Harbwr ar gyfer diweddaru adnoddau a gwireddu'r rhaglen garthu, gan rannu gobeithion bydd cyllideb bellach yn gallu cael eu cynnig i'r dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad os yw'n bosib i swyddogion yr harbwr ddiweddaru'r defnyddwyr yn fwy cyson am faterion carthu, nododd y Rheolwr bod cyswllt cyson yn cael ei wneud gyda deiliaid angorfeydd eisoes. Cydnabuwyd bod cyswllt wedi bod yn heriol yn y gorffennol ond bod hyn wedi gwella yn ddiweddar, gan gysidro os oes modd i swyddogion rannu diweddariad i deiliaid angorfeydd unwaith bod 3 mis ar y materion hyn i'r dyfodol. Cyfeiriwyd hefyd at newyddlen yr harbwr sydd yn rhannu'r gwybodaeth ddiweddaraf pob deufis, gan nodi gall unrhyw un danysgrifio iddo drwy'r wefan er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am faterion yr Harbwr. Cadarnhawyd bydd rhanddeiliaid yr harbwr a cynrychiolwyr Cyngor Tref Pwllheli yn derbyn cadarnhad pan bydd y cylchlythyr yn cael ei gyhoeddi i'r dyfodol.

Yn sgil y drafodaeth, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Economi a Chymuned y byddai'n rhannu cyflwyniad llawn yn ystod y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar wahanol ffrydiau

gwaith yr harbwr. Manylwyd bydd y cyflwyniad hwn yn manylu ar wybodaeth dechnegol ac amgylcheddol yn ogystal â'r gwahanol opsiynau sydd ar gael i'r safle.

Adroddwyd ar faterion diogelwch, adnoddau a chyllideb yr Harbwr, grant Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru, adeilad yr harbwr a materion gweithredol.

Ar ddiwedd y drafodaeth, nododd cynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli nad oedd yn credu ei fod yn llwyddo i ymrwymo i'r rôl fel sylwedydd i bwyllgorau harbyrau eraill yng Ngwynedd i'r dyfodol yn sgil ymrwymiadau eraill, gan ofyn i'r Pwyllgor ethol cynrychiolydd arall yn ei le. Enwebwyd ac eiliwyd y Cynghorydd John Brynmor Hughes fel sylwedydd newydd y Pwyllgor hwn ac fe'i hetholwyd yn dilyn pleidlais ffurfiol.

Derbyniwyd diweddariad ar ddigwyddiadau hwylio ym Mhlas Heli, gan ymfalchïo bod y safle wedi bod yn brysur iawn dros gyfnod yr haf a bod adborth cadarnhaol wedi cael ei dderbyn gan ddefnyddwyr ac ymwelwyr. Llongyfarchwyd Plas Heli ar gynnal digwyddiad hwylio ble roedd 240 o gystadleuwyr wedi teithio yn rhyngwladol er mwyn cymryd rhan.

Nodwyd bydd gwybodaeth fanwl am faterion craffu yn cael ei rannu gyda'r Aelodau yn y cyfarfod nesaf. Mewn ymateb i ymholiad am gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb, cynigiodd y Rheolwr i gynnal noson agored y tu hwn i'r Pwyllgor hwn er mwyn i aelodau dderbyn diweddariad ar faterion craffu a darparu cyfle i dderbyn adborth a sylwadau. Cefnogwyd y syniad hwn gan gytuno i estyn gwahoddiad i ddeiliad angorfeydd i'r cyfarfod anffurfiol hwnnw.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a godwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Derbyn cyflwyniad llawn ar gynlluniau ac effeithiau carthu fel rhan o'r cyfarfod nesaf a gynhelir ar 10 Mawrth 2026.**
3. **Cynnal noson agored yn Hafan ym mis Mawrth ar gyfer trafod materion carthu a lleddfu gofidion defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd ar y materion hynny.**
4. **Ethol y Cynghorydd John Brynmor Hughes yn sylwedydd y Pwyllgor ar gyfer Pwyllgorau Harbwr Aberdyfi, Porthmadog ac Abermaw.**

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 10 Mawrth 2026.**

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 pm a daeth i ben am 6.50 pm.

**CADEIRYDD.**

| Cyfarfod | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 10 Mawrth 2026 |
| **Awdur:** | Rheolwr Hafan a Harbwr Pwllheli - Sarah Hattle. |
| **Gwasanaeth:** | Hafan a Harbwr Pwllheli, Adran Economi a Chymuned, |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Rheoli Gwasanaeth |

## 1 CEFNDIR

1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Pwllheli.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar Harbwr Pwllheli am y cyfnod hyd at ddiwedd mis Chwefror 2026, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

## 2. ADRODD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH

2.1 Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth.


### i) Data Perfformiad

2.2 Cafodd y wybodaeth am yr angorfeydd sydd ar gael a'r nifer sy'n eu dal, ei gasglu ynghyd fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Harbwr a'r Hafan.

| Ardal Angori | 2023/4 | 2024/5 | 2025/6 |
|---|---|---|---|
| Cytundebau Angori | 47/49 (96%) | 39/49 (80%) | 38/44 (86%) |
| Ardal 5 | 11/11 | 9/11 | 8/8 |
| Ardal 4 | 8/8 | 7/8 | 8/8 |
| Ardal 3 | 18/20 | 14/20 | 16/20 |
| Pontŵn Pysgota | 10/10 | 9/10 | 6/8 |

2.3 Fel y nodwch, gall lefel y capasiti mewn ardaloedd gwahanol o'r harbwr amrywio o flwyddyn i flwyddyn - ar gyfer ardal 5 mae hyn oherwydd cynnydd mewn silt, ar gyfer y pontŵn pysgota mae nifer yr angorfeydd yn dibynnu ar beth yw maint y cychod.

2.4 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn casglu data ar lefelau boddhad cwsmeriaid angorfeydd a docfeydd:




d.s. Mae'r ffigyrau yn cyfuno cwsmeriaid yr harbwr a rhai sy'n dal angorfeydd yn y marina.

2.5 Cwblheir yr arolwg yn flynyddol ym mis Hydref. Yn gyffredinol, mae tueddiad ar i fyny gyda'r bodlonrwydd wedi gwella ynghyd â pha mor gymwynasgar yw staff a chyfleusterau parcio. Mae'r tueddiad is o ran sgôr ar gyfer golwg cyffredinol yn arwydd o isadeiledd sy'n heneiddio ac rydym yn ymwybodol o hyn. Ystyrir fod y dyfnder yn gwaethygu gyda mwy o silt, er bod dyfnder y sianel yn cael ei chadw. Trafodir y strategaeth garthu hirdymor yn 2.11.

**ii) <u>Diogelwch yr Harbwr</u>**

2.6 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol. Gellir gweld y fersiwn ddiweddaraf o'r Cod yn unrhyw un o swyddfeydd harbwr Cyngor Gwynedd. I sicrhau ein bod yn cydymffurfio, caiff ein harbyrau eu harchwilio'n rheolaidd gan arbenigwr allanol. Ar ôl iddo gael ei benodi yn Berson Dynodedig i ni y llynedd fe wnaeth Owen Morgan gynnal archwiliad o bedwar harbwr Cyngor Gwynedd yn ystod 10-11 Chwefror 2026. Nid ydym eto wedi derbyn ei adroddiad llawn, fodd bynnag, mae'r adborth o'r archwiliad wedi bod yn gadarnhaol. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn cyhoeddi'r fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r cod ar wefan gyhoeddus y Cyngor yn fuan iawn: www.gwynedd.llyw.cymru.

2.7 Un flaenoriaeth allweddol i'r gwasanaeth yw sicrhau mordwyo diogel i'r holl forwyr sy'n defnyddio ein dyfrffyrdd. I gefnogi hyn rydym yn archwilio'r holl gymhorthion mordwyo yn rheolaidd. Yn ychwanegol, mae Tŷ'r Drindod yn archwilio ein cymhorthion mordwyo a'n cofnodion yn flynyddol. Dyma grynodeb o ymweliadau Tŷ'r Drindod dros y 12 mis diwethaf:

| Dyddiad | Gweithgaredd | Asesiad/Sylwadau |
|---|---|---|
| 14/5/2025 | Archwilio cofnodion | Boddhaol<br>*"roedd popeth mewn trefn ac nid oedd unrhyw faterion yn codi sydd angen sylw pellach."* |
| 06/10/2025 | Archwiliad Cymhorthion Mordwyo | "*canfuwyd bod yr holl gymhorthion mordwyo mewn cyflwr da ac yn effeithlon*". |

### iii) Adnoddau a Chyllideb

2.8 Mae crynodeb o'r gyllideb ar gyfer Harbwr Pwllheli i'w gweld isod:

| HARBWR PWLLHELI | Adolygiad mis Tachwedd 2025 -Perfformiad Ariannol am y Cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026 | | |
|---|---|---|---|
| | Y GYLLIDEB AM Y CYFNOD 1/4/25 HYD AT 31/3/26 | Y GWARIANT A RAGWELIR 1/4/25 HYD 31/3/26 | TROS (TAN) |
| Gweithwyr | £36,472 | £35,824 | -£648 |
| | | | |
| Adeiladau | £16,940 | £13,716 | -£3,224 |
| | | | |
| Cludiant | £730 | £23 | -£708 |
| | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £15,830 | £991 | -£14,839 |
| | | | |
| Incwm | -£48,930 | -£37,227 | £11,703 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **£21,042** | **£13,327** | **-£7,715** |

| HAFAN PWLLHELI | Adolygiad mis Tachwedd 2025 -Perfformiad Ariannol am y Cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026 | | |
|---|---|---|---|
| | Y GYLLIDEB AM Y CYFNOD 1/4/25 HYD AT 31/3/26 | Y GWARIANT A RAGWELIR 1/4/25 HYD 31/3/26 | TROS (TAN) |
| Gweithwyr | £387,898 | £340,375 | -£47,523 |
| | | | |
| Adeiladau | £577,460 | £653,919 | £76,459 |
| | | | |
| Cludiant | £11,440 | £4,700 | -£6,740 |
| | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £118,810 | £114,688 | -£4,122 |
| | | | |
| Gwariant un-tro - Wedi ei ariannu o'r Cronfeydd wrth gefn | £0 | £0 | £0 |
| | | | |
| Incwm | -£1,898,440 | -£1,992,525 | -£94,085 |
| Cyfraniad o'r Cronfeydd wrth Gefn tuag at y Costau Un-tro | £0 | £0 | £0 |
| | | | |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **-£802,832** | **-£878,843** | **-£76,011** |

### iv) Diweddariadau allweddol eraill

2.8.1 **Grant Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru.** Rhwng amser ysgrifennu'r adroddiad hwn a chynnal cyfarfod am y gwaith sydd wedi ei gynllunio, dylai'r gwaith i newid y pontŵn pysgota sydd yng nghanol yr afon fod wedi ei gwblhau. Trefnwyd i'r gwaith ddigwydd ar 23 i 27 Chwefror 2026.

2.10 **Carthu.** Ym mis Mawrth, comisiynwyd YGC i baratoi dau gais trwydded forol mewn perthynas â charthu. Mae'r drwydded gyntaf ar gyfer carthu - cynnal a chadw ble mae'r awdurdod eisiau pwmpio deunydd sydd wedi'i garthu allan i'r môr. Mae'r ail drwydded ar gyfer gwaith carthu cyfalaf fyddai'n cynnwys adennill tir. Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (yr awdurdod trwyddedu) i drafod y ceisiadau. Mae'r cynnydd hyd yma fel a ganlyn:

- **Gwaith Carthu Cynnal a Chadw**: Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer ymgeisio am y drwydded forol hon yn mynd rhagddo i'w gyflwyno yn haf 2026. Roedd Intertek (y cwmni a gomisiynwyd i ddarparu y gwaith modelu gwaddod) angen data ychwanegol ar symudiad y dŵr ym mae Abererch. Yn ystod misoedd Rhagfyr 2025 a Ionawr 2026, gosodwyd synhwyrydd i gasglu'r data gofynnol. Mae'r data

yma wrthi yn cael ei ddadansoddi ac wedyn fe gaiff ei fwydo i'r model i sicrhau bod y model mor realistig â phosibl.

- **Gwaith Carthu Cyfalaf:** Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer ymgeisio am y drwydded forol hon yn mynd rhagddo i'w gyflwyno yn haf 2026. Mae pedwar safle adennill tir posibl wedi cael eu hadnabod ac fe gynhyrchwyd adroddiad ynglŷn â pha mor bosibl yw adeiladu arnynt. Cafodd peth data amgylcheddol ei gasglu i bob safle a bydd arolygon pellach yn digwydd dros y misoedd i ddod.

2.11 **Adeilad yr Harbwr a'r Marina.** Yn dilyn proses gystadleuol penodwyd Rhodri o Dobson Owen ym mis hydref i ymgysylltu gyda aelodau'r tîm a chwsmeriaid gan lunio cynlluniau i foderneiddio Adeilad yr Harbwr a'r Marina, sydd yn ei hanfod heb newid ers iddo gael ei adeiladu yn nechrau'r 1990au. Mae yn agosáu at orffen y prosiect. Yn y cyfamser, ym mis Rhagfyr gadawodd Firmhelm ystafell Erch yn yr Hafan i ddatblygu'r ystafell fel lolfa i rai sydd ag angorfa. Mae'r gwaith dan sylw yn fwy helaeth nag a ragwelwyd gan fod angen ffenestri, drysau, gwres a llawr newydd. Mae'r gwaith yma yn mynd rhagddo a disgwylir y bydd yr ystafell yn weithredol yn nechrau tymor 2026/27.

2.12 **Glanhau.** Yn unol â'r gofynion caffael, gwahoddwyd tendrau yn ddiweddar ar gyfer y ddarpariaeth lanhau. Bydd y cwmni llwyddiannus yn cael ei benodi ar ddiwedd mis Chwefror ac fe ddisgwylir y byddant yn cymryd y contract drosodd yn ystod mis Mawrth.

## 3. ADRODD AR FATERION GWEITHREDOL Y GWASANAETH

3.1 **Staffio:** Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad o'r strwythur staffio mewn ymgynghoriad gyda Adnoddau Dynol a'r undebau llafur. Mae aelodau'r tîm yn cael eu symud yn fewnol i rolau newydd. Unwaith y bydd y broses wedi dod i ben, erbyn diwedd mis Chwefror bydd recriwtio allanol yn digwydd ar gyfer y ddwy swydd newydd yma.

## 4. ARGYMHELLION:

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.